



Cyngor Castell-nedd Port Talbot  
Neath Port Talbot Council



# Uwchgynllun Teithio Llesol Sandfields

## Cam Dylunio Cysyniadau

Ymarfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Cyfeirnod y Ddogfen: 30199150-ARC-XXX-XX-TR-ZH-00002

Diwygiad: P01

MAWRTH 2024

# Uwchgynllun Teithio Llesol Sandfields

## Cam Dylunio Cysyniadau I Ymarfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Awdur CC

Gwiriwr CAC

Adolygydd CAC

Cymeradwywr AJ

Cyfeirnod y Ddogfen . 30199150-ARC-XXX-XX-TR-ZH-00002

Dyddiad MAWRTH 2024

## Rheoli Fersiynau

Fersiwn Dyddiad Awdur Gwiriwr Adolygydd Cymeradwywr newidiadau

P01	05/03/2024	CC	CAC	CAC	AJ	drafft ar gyfer adolygiad cleient
-----	------------	----	-----	-----	----	--------------------------------------

Mae'r adroddiad hwn, dyddiedig 05 Mawrth 2024 wedi cael ei baratoi ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y "Cleient") yn unol â thelerau ac amodau'r penodiad (y "Penodiad"), rhwng y Cleient ac **Arcadis Consulting (UK) Limited** ("Arcadis") at y dibenion a nodir yn y Penodiad. I osgoi amheuaeth, ni chaiff yr un person arall defnyddio'r adroddiad hwn na'i gynnwys na dibynnu arnynt, ac nid yw Arcadis yn derbyn dim cyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath gan unrhyw drydydd parti.

## Cynnwys

1	CYFLWYNIAD.....	1
2	FFORMAT Y BROSES YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD.....	2
3	ADBORTH O YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD .....	5
4	CRYNODEB A'R CAMAU NESAF .....	14

## Atodiadau

Atodiad A | TAFLENNI GWYBODAETH AR Y WEFAN

Atodiad B | CWESTIYNAU'R AROLWG

Atodiad C | DEUNYDDIAU HYRWYDDO

Atodiad D | GWYBODAETH YCHWANEGOL I YMATEBWYR

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Diben yr Adroddiad

- 1.1.1 Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT) yn cydweithio â'i gilydd i'w gwneud yn haws ac yn fwy diogel a chyfleus i bobl gerdded a beicio yn Sandfields ac maent yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn datblygu rhwydwaith gwell ar gyfer teithio llesol.
- 1.1.2 Mae gwelliannau i deithio llesol wedi cael eu datblygu ar hyd 11 o lwybrau yn ardal Sandfields ym Mhort Talbot. Mae'r rhain yn amrywio o newidiadau ar raddfa fach fel cyflwyno cyrbiau isel a phalmentydd botymog, i newidiadau ar raddfa fwy fel creu llwybrau beicio newydd.
- 1.1.3 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r adborth a gafwyd gan y cyhoedd yn ystod y cam dylunio cysyniadau ac yn esbonio sut y caiff y sylwadau eu hystyried wrth symud ymlaen.

## 1.2 Strwythur yr Adroddiad

1.2.1 Mae strwythur yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae **Pennod 2** yn amlinellu'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Mae **Pennod 3** yn nodi'r adborth a'r canfyddiadau a gafwyd drwy ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Mae **Pennod 4** yn crynhoi'r canfyddiadau ac yn amlinellu'r camau nesaf.

## 2 FFORMAT Y BROSES YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

### 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Caiff y broses ymgysylltu, y gweithgareddau a gynhaliwyd, a lefel yr ymateb eu crynhoi isod.

### 2.2 Gwefan CBSCNPT

2.2.1 Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu ar-lein ar wefan CBSCNPT a lanswyd ar 18 Ionawr ac a ddaeth i ben ar 16 Chwefror 2024. Mae Ffigur 1 yn dangos sgrinlun o'r dudalen we.

Ffigur 1: Sgrinlun o'r Dudalen We

## Hoffem glywed eich barn am ein cynigion arfaethedig ar gyfer Sandfields!

Rydym wedi astudio ardal Sandfields ac wedi nodi gwelliannau posib i lwybrau cerdded a beicio fel y dangosir [ar y map yma](#). Mae'r rhain yn amrywio o newidiadau ar raddfa fach, fel darparu cyrbau isel a phalmentydd botymog, i syniadau mwy mentrus fel creu llwybrau beicio newydd a chroesfannau i gerddwyr. Mae'r atodiadau isod yn darparu rhagor o fanylion ynghylch y cynigion.

Mae ein gwaith ar gam cynnar o hyd ac nid oes unrhyw beth wedi'i bennu na'i benderfynu eto.

Rydym yn awyddus i glywed eich barn erbyn **16 Chwefror 2024**.

Byddwn yn defnyddio'ch adborth i adolygu a gwella'r syniadau.

Gallwch wedi ein cynigion:

### Llawrlwytho

- [Uwchgynllun Teithio Llesol Sandfields \(PDF 13.13 MB\)](#)
- [Llwybr 1: Parêd Seaway, Rhodfa Handel, Rhodfa Purcell a Rhodfa Scarlett \(PDF 2.38 MB\)](#)
- [Llwybr 2: Ffordd y Dywysoges Margaret \(PDF 2.27 MB\)](#)
- [Llwybr 3: Heol Victoria a Heol St Paul \(PDF 2.89 MB\)](#)
- [Llwybr 4: Heol Dalton \(PDF 2.28 MB\)](#)
- [Llwybr 5: Rhodfa'r Gorllewin a Rhodfa St Helier \(PDF 2.13 MB\)](#)
- [Llwybr 6: Heol Parry, Rhodfa Citrine a Rhodfa Arian \(PDF 1.64 MB\)](#)
- [Llwybr 7 ac 8: Rhodfa Aur, Ffordd Deg, Heol Southdown, Rhodfa Acacia a Heol Southville \(PDF 3.39 MB\)](#)
- [Llwybr 9: Heol Southdown, Ffordd Deg, Rhodfa Parc Vivian a Heol yr Ysbyty \(PDF 2.31 MB\)](#)
- [Llwybr 10: Rhodfa Bevin, Heol Romney, Heol Sandown, Heol Sunnybank, Heol Moorland a Golwg y Sianel \(PDF 2.11 MB\)](#)
- [Llwybr 11: Heol Newbridge a Heol Glan yr Afon \(PDF 2.53 MB\)](#)
- [Rhwydwaith arfaethedig o lwybrau \(PDF 14.61 MB\)](#)
- [Uwchgynllun Teithio Llesol Traethmelyn: rhestr o syniadau dylunio \(PDF 2.97 MB\)](#)

[Lawrlwytho pob](#)

**Gallwch weld ac ateb ein holiadur >**

Rhagor o wybodaeth

Os gennych ragor o gwestiynau? Beth am alw heibio ein digwyddiad ymgysylltu ar 25 Ionawr 2024 yng Nghanolfan Hamdden Aberafan rhwng 2pm a 7pm, lle bydd aelodau staff ar gael i drafod y cynigion â chi.

### 2.2.2 Roedd y wefan yn cynnwys:

- Trosolwg o'r prosiect a sut y gall y cyhoedd gymryd rhan yn y broses ymgysylltu.
- Map trosolwg yn crynhoi ardal gyfan yr uwchgynllun gan ddangos sut mae'r llwybrau arfaethedig yn cyd-fynd â'i gilydd.
- Cyfres o daflenni gwybodaeth: ynglŷn â'r prosiect ac yn dangos y cynigion dylunio cysyniadau ar gyfer pob llwybr, gan gynnwys trawsluniau, diagramau wedi'u hanodi, disgrifiadau ysgrifenedig a rhestr termau ategol.
- Arolwg ar-lein i gasglu adborth ar y cynigion.
- Manylion y digwyddiad wyneb yn wyneb.

2.2.3 Roedd yr holl wybodaeth yn ddwyieithog ac fe'i gwnaed yn gwbl hygyrch er mwyn helpu pobl ddall a rhannol ddall i gymryd rhan yn y broses.

2.2.4 Mae **Atodiad A** yn cynnwys y taflenni gwybodaeth a gyflwynwyd ar y dudalen we ymgysylltu.

2.2.5 Mae **Atodiad B** yn cynnwys copi o gwestiynau'r arolwg a ddefnyddiwyd i gasglu adborth ar y cynigion.

## 2.3 Hyrwyddo

2.3.1 Rhoddwyd cyhoedduswydd i'r ymarfer ymgysylltu drwy'r canlynol:

- Datganiad i'r wasg ar dudalen newyddion ar-lein CBSCNPT.
- Amrywiol gyfrifon cyfryngau cymdeithasol CBSCNPT.
- 6,500 o daflenni gwybodaeth a ddosbarthwyd i drigolion Sandfields gan Aelodau lleol.
- Negeseuon e-bost a thrafodaethau gydag Aelodau lleol.
- Negeseuon e-bost at randdeiliaid teithio llesol (e.e. Swyddogion CBSCNPT, ysgolion ac ati).

2.3.2 Mae **Atodiad C** yn cynnwys y datganiad i'r wasg, taflen gyhoedduswydd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, a thaflen wybodaeth.

## 2.4 Digwyddiad Wyneb yn Wyneb

2.4.1 Cynhaliwyd digwyddiad galw heibio wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Hamdden a Ffitrwydd Aberafan ddydd Iau 25 Ionawr 2024 o 2pm tan 7pm. Roedd yn gyfle i randdeiliaid a thrigolion drafod y dyluniadau teithio llesol gyda thîm y prosiect. Roedd copiâu papur o'r arolwg ar gael hefyd.

2.4.2 Mae cynllun y digwyddiad i'w weld yn Ffigur 2 a chafodd ei hwyluso gan aelodau o dîm cleient CBSCNPT a thîm prosiect Arcadis.

2.4.3 Hefyd, roedd copiâu papur o'r taflenni gwybodaeth a'r holiadur ar gael yn Llyfrgell Sandfields drwy gydol yr ymarfer ymgysylltu.

*Ffigur 2: Cynllun y Digwyddiad Wyneb yn Wyneb*



## 3 ADBORTH O YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD


### 3.1 Cyflwyniad

- 3.1.1 Cwblhawyd cyfanswm o 80 o arolygon, gan gynnwys tri chopi caled a gwblhawyd yn ystod y digwyddiad wyneb yn wyneb neu a ddosbarthwyd yn Llyfrgell Sandfields.
- 3.1.2 Mae'r atebion i bob un o gwestiynau'r arolwg wedi'u nodi yn yr adran hon fesul cwestiwn.
- 3.1.3 Lle y rhoddir niferoedd, dylid nodi eu bod yn seiliedig ar godio'r sylwadau'n fras ac y gall y broses hon fod yn oddrychol – felly, dylid defnyddio'r niferoedd i roi syniad o gryfder ymdeimlad, yn hytrach na'u trin fel ffigurau absoliwt. Mae'r niferoedd yn cyfeirio at nifer yr arolygon y cafodd sylwadau eu gwneud ynddynt (dylid nodi ei bod yn bosibl bod unigolion wedi cyflwyno mwy nag un arolwg mewn nifer bach iawn o achosion, ac felly nad yw nifer yr arolygon yn union yr un fath â nifer yr ymatebwyr).
- 3.1.4 Mae **Atodiad D** yn cynnwys manylion eraill am y math o ymatebydd, yn seiliedig ar y cwestiynau ychwanegol a ofynnwyd yn yr arolwg.

### 3.2 Cefnogaeth Mewn Egwyddor

- 3.2.1 Gofynnodd yr arolwg: *'A ydych chi'n cefnogi, mewn egwyddor, y cynlluniau i wella'r llwybrau cerdded/beicio yn yr ardal hon?'*. Cafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn mewn 79 o arolygon, ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 3.

Ffigur 3: Cefnogaeth i'r Prosiect



- Dywedodd yr ymatebwyr i 43 o arolygon (55%) eu bod yn cefnogi'r cynigion neu'n eu cefnogi'n gryf.
- Dywedodd yr ymatebwyr i 36 o arolygon (45%) nad oeddent yn cefnogi'r cynigion neu eu bod yn gryf yn eu herbyn.




### 3.3 Cefnogaeth i Ddyluniadau'r Llwybrau

3.3.1 Gofynnodd yr arolwg a hoffai'r ymatebwyr ateb cwestiynau am bob llwybr. Yn dilyn ateb cadarnhaol i hynny, byddai'r arolwg wedi gofyn:

*'Gan feddwl am yr atebion dylunio rydyn ni wedi dechrau eu harchwilio, i ba raddau ydych chi'n cefnogi'r syniadau hyn?'*

3.3.2 Mae crynodeb o'r ymatebion i'w weld yn Ffigur 4.

Ffigur 4: Lefel o Gefnogaeth fesul Llwybr



### 3.4 Adborth ar Ddyluniadau'r Llwybrau

3.4.1 Gwnaeth yr arolwg hefyd gynnig opsiwn i'r ymatebwyr roi ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau canlynol ar gyfer pob llwybr:

- *'Pa agweddau ar ddyluniad y llwybr ydych chi'n eu hoffi, a pham?'*
- *'Pa agweddau ar ddyluniad y llwybr dydych chi ddim yn eu hoffi, a pham?'*

3.4.2 Mae crynodeb o'r sylwadau ysgrifenedig i'w weld yn Tabl 1.

Tabl 1: Adborth ar Ddyluniadau'r Llwybrau

Llwybr	Agweddau ar y llwybr roedd yr ymatebwyr yn eu hoffi	Agweddau ar y llwybr nad oedd yr ymatebwyr yn eu hoffi	Sylwadau eraill
<b>Llwybr 1 – Seaway Parade i Rodfa Ysgarlad</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darpariaeth ar wahân ar gyfer beicio (3 arolwg)</li> <li>• Gwell diogelwch ar gyfer plant ysgol (2 arolwg)</li> <li>• Croesfan sebra newydd (1 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pryderon diogelwch ynglŷn â diffyg lleoedd parcio ger Ysgol Bae Baglan yn arwain at barcio peryglus (1 arolwg)</li> <li>• Colli lleoedd parcio (1 arolwg)</li> <li>• Pryderon diogelwch ynglŷn â'r ffaith bod y groesfan twcan yn caniatáu i feicwyr droi i mewn i Rodfa St Helier, sy'n stryd unffordd (1 arolwg)</li> <li>• Llwybr cyd-ddefnyddio ar Rodfa Ysgarlad – byddai'n well gan yr ymatebydd weld llwybrau ar wahân (1 arolwg)</li> <li>• Llwybr beicio yng nghanol Rhodfa Handel – byddai'n well gan yr ymatebydd weld llwybr uwch bob ochr i'r ffordd (1 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hoffai'r ymatebydd weld mwy o oleuadau ar y llwybr a chamerau cyflymder (1 arolwg)</li> <li>• Awgrymodd yr ymatebydd y dylai hefyd fod croesfan sebra ymhellach i'r gogledd ar Seaway Parade, yn agosach at Ysgol Bae Baglan (1 arolwg)</li> <li>• Pryderon diogelwch ynglŷn â chyflymder cerbydau'n teithio i lawr Rhodfa Purcell, ac mae'r ymatebydd yn gofyn a gaiff y llwybr beicio ei ddiogelu gan rwystrau (1 arolwg)</li> </ul>
<b>Llwybr 2 – Ffordd y Dywysoges Margared</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd llwybr beicio ar wahân yn cynnig lle wedi'i neilltuo i feicio ac yn cael gwared ar wrthdaro â cherddwyr (11 o arolygon)</li> <li>• Gwell croesfannau (2 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Colli lleoedd parcio (4 arolwg)</li> <li>• Dim digon o flaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr ar Gylchfan Ffordd y Dywysoges Margared – byddai'n well gan yr ymatebwyr weld cylchfan 'seiclops' / fel yn yr Iseldiroedd, croesfannau sebra neu gael gwared ar y gylchfan (3 arolwg)</li> <li>• Byddai'n well gan yr ymatebydd weld lôn feicio ddwyffordd ar draws Ffordd y Dywysoges Margared i gyd, ar ochr y traeth (1 arolwg)</li> <li>• Pryderon ynglŷn â cheir yn troi i'r chwith ac yn gorfod cadw golwg am feicwyr (1 arolwg)</li> </ul>	
<b>Llwybr 3 – Heol Victoria a Heol Sant Paul</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darpariaeth beicio ar Heol Victoria (3 arolwg)</li> <li>• Mwy o groesfannau i gerddwyr (3 arolwg)</li> <li>• Cyflwyno stryd dawel (3 arolwg)</li> <li>• Gwell diogelwch ar gyfer cerdded i'r ysgol (1 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Colli lleoedd parcio (32 o arolygon)</li> <li>• Pryderon diogelwch o ran beicwyr mewn perthynas â dynodi Heol Sant Paul yn stryd dawel gan ei bod yn brysur iawn ar adegau mynd â phlant i'r ysgol / casglu plant o'r ysgol ar hyn o bryd (5 arolwg)</li> <li>• Ddim yn ddigon uniongyrchol ar gyfer beicwyr – byddai'n well gan yr ymatebwyr barhau ar hyd Heol Victoria na mynd ar hyd Heol Sant Paul (3 arolwg)</li> <li>• Beicwyr a cherddwyr ddim yn cael eu cadw ar wahân ar y llwybr cyd-ddefnyddio (2 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae parcio ar y palmant yn broblem ar adegau mynd â phlant i'r ysgol / casglu plant o'r ysgol (2 arolwg)</li> <li>• Awgrym y dylai Heol Sant Paul ddod yn stryd mynediad yn unig er mwyn atal pobl rhag ei defnyddio i osgoi'r goleuadau ar Heol Victoria (1 arolwg)</li> <li>• Mae'r potiau planhigion sydd ar hyd Heol Victoria ar hyn o bryd yn gallu ei gwneud hi'n anodd gweld plant sy'n aros i groesi'r ffordd (1 arolwg)</li> </ul>
<b>Llwybr 4 – Heol Dalton</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hidlyddion moddol (2 arolwg)</li> <li>• Darpariaeth beicio ar lefel wahanol i'r traffig (2 arolwg)</li> <li>• Gwell diogelwch yn sgil y groesfan sebra newydd (1 arolwg)</li> <li>• Llif traffig unffordd (1 arolwg)</li> <li>• Bydd y cynigion yn gwneud beicio'n gyflymach yn yr ardal hon (1 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Colli lleoedd parcio (4 arolwg)</li> <li>• Byddai'n well gan yr ymatebydd weld llwybr beicio dwyffordd ar gyfer beiciau ansafonol a beicwyr cyflymach (1 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodwyd problem o ran ymddygiad ymosodol gan yrwyr tuag at feicwyr ar y llwybr hwn (1 arolwg)</li> </ul>

Llwybr	Agweddau ar y llwybr roedd yr ymatebwyr yn eu hoffi	Agweddau ar y llwybr nad oedd yr ymatebwyr yn eu hoffi	Sylwadau eraill
<b>Llwybr 5 – Rhodfa'r Gorllewin a Rhodfa St Helier</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Llwybr ar lefel wahanol i feicwyr a cherddwyr (1 arolwg)</li> <li>Annog teithio llesol (1 arolwg)</li> <li>Arafu'r traffig (1 arolwg)</li> <li>Darparu mwy o gyrbiau isel (1 arolwg)</li> <li>Mae'r cynigion yn cynnig opsiwn amgen ymarferol (1 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw'r llwybr yn ddigon uchelgeisiol o ystyried ei fod yn llwybr uniongyrchol i lan y môr; hoffai'r ymatebydd weld darpariaeth ar wahân ar gyfer beicio (2 arolwg)</li> <li>Gormod o dwmpathau cyflymder (2 arolwg)</li> <li>Mae Rhodfa'r Gorllewin yn ddigon llydan i wneud gwelliannau pellach (1 arolwg)</li> <li>Mae Rhodfa St Helier yn stryd brysur sydd â thraffig ysgol arni ac mae'n bosibl na fyddai'n addas ei dynodi'n stryd dawel (1 arolwg)</li> <li>Croesfan y tu allan i'r eglwys Fethodistaidd (1 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhodfa'r Gorllewin – mae Cylchfan Fairway yn frawychus i feicwyr (1 arolwg)</li> <li>Caiff y troedffyrdd presennol eu rhwystro'n aml gan geir wedi'u parcio a biniau – ddim yn hygyrch i bobl â phramiau a sgwteri symudedd (1 arolwg)</li> </ul>
<b>Llwybr 6 – Heol Parry, Rhodfa Arian a Rhodfa Citrine</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Twmpathau cyflymder er mwyn lleihau goryrru (1 arolwg)</li> <li>Darparu cyrbiau isel (1 arolwg)</li> <li></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen rhagor o fesurau gostegu traffig ar Rodfa Arian er mwyn ei gwneud yn ddiogel ei defnyddio ar feic (1 arolwg)</li> <li>Twmpathau cyflymder sy'n cael mwy o effaith ar geir bach na cherbydau SUV mwy (1 arolwg)</li> </ul>	
<b>Llwybrau 7 ac 8 – Rhodfa Aur i Heol Southville</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu llwybr beicio un pwrpas ar Rodfa Aur (4 arolwg)</li> <li></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Colli lleoedd parcio (1 arolwg)</li> <li>Llwybr beicio uwch (1 arolwg)</li> <li>Mae angen gwell darpariaeth ar gyfer croesi ger Cylchfan Rhodfa'r Gorllewin (1 arolwg)</li> <li>Diffyg darpariaeth ar wahân ar gyfer teithio llesol ar y llwybr (1 arolwg)</li> <li>Nid yw'n glir a gaiff y strydoedd tawel eu gwella'n ddigonol i ddod yn llwybrau teithio llesol (1 arolwg)</li> <li>Byddai'n well gan yr ymatebydd weld camerâu'n targedu pobl sy'n goryrru yn hytrach na thwmpathau cyflymder sy'n effeithio ar ddefnyddwyr ffyrdd nad ydynt yn achosi llawer o lygredd (1 arolwg)</li> </ul>	
<b>Llwybr 9 – Heol Southdown i Heol yr Ysbyty</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y llwybr yn fwy hygyrch (1 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fydd darparu strydoedd tawel yn ddigon i newid arferion teithio pobl (2 arolwg)</li> <li>Twmpathau cyflymder (2 arolwg)</li> </ul>	
<b>Llwybr 10 – Rhodfa Bevin, Rhodfa Abbeyville, Heol Romney, Heol Morfa,</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwell palmentydd a chyrbiau isel (1 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Twmpathau cyflymder (4 arolwg)</li> <li>Mae Channel View a Heol Sunnybank yn amgylcheddau prysur iawn, yn enwedig ar adegau mynd â phlant i'r ysgol / casglu plant o'r ysgol felly ni fyddai'n addas eu dynodi'n strydoedd tawel (2 arolwg)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Awgrym bod angen croesfan i gerddwyr ger Ysgol Tywyn (1 arolwg)</li> <li>Awgrym y dylid gosod camerâu cyflymder ger Ysgol Tywyn (1 arolwg)</li> </ul>

Llwybr	Agweddau ar y llwybr roedd yr ymatebwyr yn eu hoffi	Agweddau ar y llwybr nad oedd yr ymatebwyr yn eu hoffi	Sylwadau eraill
--------	---	--	-----------------

---

**Heol Sunnybank, Heol Sandown**

---


**Llwybr 11 – Heol Newbridge**

- |   |  |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ailagor y bont (12 o arolygon)</li> <li>• Rheoli cyflymder / creu stryd dawel (3 arolwg)</li> <li>• Gallai traffig unffordd symleiddio'r groesffordd â Heol Victoria (1 arolwg)</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Posibilrwydd o golli lleoedd parcio (9 arolwg)</li> <li>• Pryderon ynglŷn â chynnydd mewn traffig ar Rodfa Ruskin (2 ymateb)</li> <li>• Twmpathau cyflymder (2 arolwg)</li> </ul> |
|---|--|
-

## 3.5 Llwybr 11 – Adborth ar Heol Newbridge

- 3.5.1 Ar hyn o bryd, mae cynllun arall yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr ag Uwchgynllun Teithio Llesol Sandfields, sy'n cynnwys adfywio Pont Restredig Gradd II Newbridge. Nod y cynllun yw creu cysylltiad teithio llesol newydd ar hyd Heol Glanyrafon a Heol Newbridge, gan gynnwys Pont Newbridge sy'n cysylltu'r ddwy ffordd hyn.
- 3.5.2 Oherwydd agosrwydd daearyddol a pherthnasedd y cynllun, gofynnwyd i'r ymatebwyr am adborth ar dri opsiwn dylunio hefyd.
- 3.5.3 Gofynnodd yr arolwg: *'Rhowch wybod i ni pa opsiwn dylunio sydd orau gennych chi ar gyfer y rhan o'r llwybr wrth ymyl Heol Newbridge.'*
- 3.5.4 Y tri opsiwn a oedd ar gael oedd:
- **Opsiwn A** – Llwybr newydd a rennir gan gerddwyr a beicwyr ar hyd ochr ogleddol y ffordd a thraffig unffordd.
  - **Opsiwn B** – Llwybr newydd a rennir gan gerddwyr a beicwyr ar hyd yr ochr ogleddol drwy gael gwared ar barcio ar y stryd.
  - **Opsiwn C** – Gwella'r llwybr i gerddwyr a galluogi beicio ar y ffordd drwy wella diogelwch a lleihau cyflymder traffig drwy osod cyfleusterau croesfan ar fwrdd wedi'i godi, cyffyrdd wedi'u codi a thwmpathau cyflymder (a elwir yn "stryd dawel").
- 3.5.5 Cafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn mewn 26 o arolygon, ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 5.

Ffigur 5: Adborth ar Opsiynau Heol Newbridge




- Dewiswyd Opsiwn A mewn 13 o arolygon (50%)
- Dewiswyd Opsiwn B mewn 2 arolwg (8%)
- Dewiswyd Opsiwn C mewn 11 o arolygon (42%).

## 3.6 Blaenoriaethu Llwybrau

3.6.1 Gofynnodd yr arolwg: *'Dewiswch 3 llwybr yr hoffech eu gweld yn cael blaenoriaeth dros y lleill'*

3.6.2 Cafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn mewn 76 o arolygon, ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 6.

Ffigur 6: Blaenoriaethu Llwybrau



3.6.3 Y tri phrif lwybr yr hoffai ymatebwyr eu gweld yn cael y mwyaf o flaenoriaeth yw:

- **Llwybr 11** – Heol Newbridge
- **Llwybr 2** – Ffordd y Dywysoges Margared
- **Llwybr 1** – Seaway Parade i Rodfa Ysgarlad

3.6.4 Noder mai Llwybr 3 – Heol Victoria a Heol Sant Paul oedd yn y pedwerydd safle yn y rhestr flaenoriaethu.

## 3.7 Adborth Ychwanegol

3.7.1 Gofynnodd y cwestiwn olaf yn yr arolwg: *'Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ychwanegol ynghylch y cynigion, nodwch y rhain yn y bwlch isod.'*

3.7.2 Mae'r sylwadau a'r awgrymiadau a gafwyd gan yr ymatebwyr wedi cael eu crynhoi yn Tabl 2, ynghyd â'r sylwadau a wnaed yn y cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook) a'r pwyntiau a godwyd yn y digwyddiad wyneb yn wyneb.

Tabl 2: Adborth Ychwanegol o'r Arolwg

### Sylwadau ar y Cynigion Dylunio Cysyniadau:

- Pryderon ynglŷn ag argaeledd lleoedd parcio, yn enwedig ar gyfer pobl ag anableddau (5 arolwg, 3 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).
- Pryder ynglŷn â gwrthdaro â cherddwyr ar lwybrau cyd-ddefnyddio (1 arolwg, 3 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).
- Anhoffter o'r syniad o fwy o dwmpathau cyflymder sy'n effeithio ar geir a beicwyr (3 arolwg).
- Awgrym na fydd strydoedd tawel yn effeithiol (1 arolwg, 1 sylw mewn digwyddiad wyneb yn wyneb).
- Mae Heol Sant Paul yn stryd brysur sydd â thraffig ysgol arni ac mae'n bosibl na fyddai'n addas ei dynodi'n stryd dawel (2 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol, 1 sylw mewn digwyddiad wyneb yn wyneb).
- Hoffai'r ymatebydd weld seilwaith teithio llesol mwy uchelgeisiol yn hytrach na strydoedd tawel (1 arolwg).
- Cefnogaeth o blaid mwy o groesfannau i gerddwyr (1 arolwg).
- Mynegiant cyffredinol o gefnogaeth o blaid y cynigion sy'n annog trafndiaeth gynaliadwy (1 arolwg).
- Pryderon ynglŷn â sŵn a tharfu posibl (1 arolwg).
- Nid yw'r ymatebydd am weld coed yn diflannu. Awgrym y gellid defnyddio potiau planhigion i gulhau'r ffordd yn hytrach na thwmpathau cyflymder (1 arolwg).
- Awgrym y dylai llwybr beicio ymestyn yr holl ffordd ar hyd Heol Victoria neu gysylltu llwybr beicio Heol Victoria â llwybr yr afon drwy Heol Newbridge (1 arolwg).
- Pryder ynglŷn â pha mor aml y caiff llwybrau eu defnyddio ar sail lefelau beicio presennol (2 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).
- Pryderon ynglŷn â seilwaith beicio / cerdded yn cael ei ddefnyddio gan feiciau modur, fel sydd eisoes wedi cael ei weld ar lwybr cyd-ddefnyddio Rhodfa Handel (1 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).
- Awgrym y byddai croesfan arall ar Heol Dalton ger Rhodfa Parc Vivian yn ddefnyddiol (1 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).
- Hoffai'r ymatebydd weld mwy o lwybrau beicio diogel ar wahân i blant ysgol eu defnyddio (1 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).

### Sylwadau Cyffredinol am Deithio Llesol

- Awgrym bod angen mwy o arwyddion yn yr ardaloedd 20mya (1 arolwg).
- Awgrym y gellid defnyddio'r lonydd y tu ôl i'r terasau fel llwybrau teithio llesol (1 arolwg, 2 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).

- Awgrym bod angen gwella ardaloedd eraill ar fwy o frys: (1 arolwg).
  - Ffordd Afan – angen gwell darpariaeth beicio.
  - Heol Victoria – gwelliannau i'r gyffordd â Ffordd Afan.
  - Darpariaeth beicio ar Ffordd yr Harbwr.

#### **Pryderon eraill ynglŷn â'r amodau trafnidiaeth presennol:**

- Pryderon ynglŷn ag anhygyrchedd y troedffyrdd presennol, gyda chyrbiau uchel a biniau'n rhwystro lled y droedffordd (2 arolwg).
- Pryder ynglŷn â thyllau yn y ffordd (1 arolwg, 3 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).
- Pryderon ynglŷn â baw cŵn ar lwybrau cerdded (1 arolwg).
- Pryderon ynglŷn â sbwriel a gwydr ar y troedffyrdd (1 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).
- Pryderon ynglŷn â chynnal a chadw'r llwybrau beicio presennol e.e. tarmac yn malurio a thywod ar y llwybrau (2 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).
- Pryderon ynglŷn â pharcio ar y palmant (1 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).
- Pryderon ynglŷn â biniau ar y droedffordd (1 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).
- Pryderon ynglŷn â diffyg cyrbiau isel (3 sylw yn y cyfryngau cymdeithasol).



## 4 CRYNODEB A'R CAMAU NESAF

- 4.1.1 Bydd yr adborth a gafwyd gan y cyhoedd yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu tîm y prosiect i ddatblygu'r lluniadau dylunio rhagarweiniol ar gyfer prosiect Uwchgynllun Teithio Llesol Sandfields, yn ogystal â'r dyluniad manwl ar gyfer prosiect cynllun Pont Newbridge a Mynediad i'r Dociau. Hefyd, y pedwar llwybr hyn a gafodd y flaenoriaeth uchaf gan y cyhoedd ar gyfer eu cyflawni.
- 4.1.2 Caiff adborth ar y llwybrau hyn ei ymgorffori yn yr ystyriaethau dylunio fel yr amlinellir isod.

### **Llwybr 1: Seaway Parade i Rodfa Ysgarlad:**

- Ystyried cynllun a chyfeiriad cysylltiadau teithio llesol o gwmpas Rhodfa St Helier (stryd unffordd ar hyn o bryd).
- Ystyried ychwanegu croesfan sebra yn agos at fynedfa Ysgol Bae Baglan.
- Ystyried mesurau pellach i leihau parcio peryglus o gwmpas Ysgol Bae Baglan ar adegau mynd â phlant i'r ysgol a chasglu plant o'r ysgol.
- Ystyried ffyrdd o gynnal lefelau parcio derbyniol.
- Ystyried dichonoldeb cyflwyno llwybrau ar wahân ar hyd Rhodfa Ysgarlad yn hytrach na llwybr cyd-ddefnyddio.

### **Llwybr 2: Ffordd y Dywysoges Margared:**

- Ystyried opsiynau ar gyfer ychwanegu mwy o flaenoriaeth i gerddwyd a beicwyr ar Gylchfan Ffordd y Dywysoges Margared / Rhodfa'r Gorllewin / Heol Dalton.
- Ystyried ffyrdd o gynnal lefelau parcio derbyniol.
- Sicrhau ymdriniaeth ddiogel â'r gyffordd lle y gall fod angen i geir droi ar draws llwybr beicio.

### **Llwybr 3 – Heol Victoria a Heol Sant Paul:**

- Ystyried ffyrdd o gynnal lefelau parcio derbyniol.
- Ystyried mesurau i leihau parcio peryglus a gwella diogelwch y ffordd ar Heol Sant Paul ar adegau mynd â phlant i'r ysgol a chasglu plant o'r ysgol.
- Ystyried opsiynau i wneud y llwybr yn fwy uniongyrchol ar gyfer beicwyr sy'n teithio ar hyd Heol Victoria.
- Ystyried dichonoldeb cyflwyno llwybrau ar wahân ar hyd Heol Victoria yn hytrach na llwybr cyd-ddefnyddio.

### **Llwybr 11: Heol Newbridge:**

- Opsiwn A – Llwybr newydd a rennir gan gerddwyr a beicwyr ar hyd ochr ogleddol y ffordd a thraffig unffordd oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer symud ymlaen i'r cam dylunio manwl.

- Ystyried ffyrdd o gynnal lefelau parcio derbyniol.
- Mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â chynnydd mewn traffig ar Rodfa Ruskin.
- Ystyried opsiynau amgen ar gyfer arafu traffig yn hytrach na thwmpathau cyflymder.

4.1.3 Caiff canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu eu hystyried ochr yn ochr â'r ystyriaethau ehangach mewn perthynas â chyflawnadwyedd, dichonoldeb peirianneg ac amserlenni cyflawni, a'u cydbwysu yn erbyn yr ystyriaethau hynny.

4.1.4 Rhagwelir rhagor o ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch pob llwybr wrth i'r dyluniad symud ymlaen i'r cam dylunio manwl.



# Atodiad A

## TAFLENNI GWYBODAETH AR Y WEFAN

**DWEUD EICH DWEUD - RYDYN NI EISIAU EICH ADBORTH AR EIN SYNIADAU I WELLA TEITHIO LLESOL YN SANDFIELDS**

**Gwybodaeth am y Prosiect:**

Blaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru a Chyngor Castell-nedd Port Talbot yw ei gwneud hi'n haws i bawb gerdded, beicio neu olwynio ar gyfer teithiau bob dydd (yr enw ar hyn yw Teithio Llesol). Mae'r prosiect hwn yn edrych ar sut y gellir gwella'r ffyrdd yn ardal Sandfields fel bod cerdded, beicio ac olwynio'n opsiynau mwy diogel a deniadol ar gyfer teithiau byr.

Rydyn ni wedi edrych ar ddeg llwybr, fel y dangosir ar y map isod, ac rydyn ni wedi nodi gwelliannau posibl. Mae'r rhain yn amrywio o newidiadau bach, fel darparu cyrbau isel a phalmentydd botymog (palmentydd botymog i helpu pobl â nam ar eu golwg), a syniadau mwy beiddgar fel creu llwybrau beicio newydd a chroesfannau newydd i gerddwyr. Mae'r taflenni canlynol yn rhoi rhagor o fanylion.

Megis dechrau yw ein gwaith ar hyn o bryd, ac nid oes dim wedi'i bennu na'i benderfynu eto. Rydyn ni'n awyddus i glywed eich barn a byddwn ni'n defnyddio eich adborth i adolygu a gwella'r syniadau.

**Y cyd-destun ehangach:**

Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen gwaith ehangach y Cyngor sy'n ymwneud â Theithio Llesol.


Mae cyllid ar gyfer y prosiect hwn, ac ar gyfer unrhyw welliannau y gellid eu cyflawni yn y dyfodol, yn dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod y cyllid ar gyfer y gwaith hwn ar wahân i flaenoriaethau cyllido eraill y Cyngor lleol, ac nid yw'n tynnu oddi arnynt.

**Dweud eich dweud:**

Llenwch ein harolwg ar-lein i roi eich sylwadau i ni.

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at: [greener@npt.gov.uk](mailto:greener@npt.gov.uk)

**Llwybrau sy'n cael eu hystyried ar gyfer gwella teithio llesol**



- LLWYBR 1:** Seaway Parade, Rhodfa Handel, Rhodfa Purcell a Rhodfa Ysgarlad
- LLWYBR 2:** Ffordd y Dywysoges Margared
- LLWYBR 3:** Heol Victoria a Heol Sant Paul
- LLWYBR 4:** Heol Dalton
- LLWYBR 5:** Rhodfa Gorllewin a Rhodfa St Helier
- LLWYBR 6:** Heol Parry, Rhodfa Citrine a Rhodfa Arian
- LLWYBR 7/8:** Rhodfa Aur, Ffordd Deg, Heol Southdown, Rhodfa Acacia a Heol Southville
- LLWYBR 9:** Heol Southdown, Ffordd Deg, Rhodfa Parc Vivian a Heol yr Ysbyty
- LLWYBR 10:** Rhodfa Bevin, Heol Romney, Heol Sandown, Heol Brynheulog, Heol Morfa a Golwg y Sianel
- LLWYBR 11:** Heol Glanyrafom, Pont Pontnewydd, Heol Pontnewydd

**Y Camau Nesaf:**

Byddwn ni'n datblygu dyluniadau a syniadau mewn camau, gan ddechrau gyda'r canlynol: Heol Victoria / Heol Sant Paul, Ffordd y Dywysoges Margared, Seaway Parade i Rodfa Ysgarlad

Wrth i'r dyluniadau gael eu datblygu, bydd cyfleoedd eraill i roi sylwadau.

**Trosolwg o gynigion y dyluniad:**

- Bydd y llwybr troed ar Seaway Parade yn cael ei ledu gyferbyn â'r maes chwarae.
- Bydd llwybr beiciau yn cael ei greu ar hyd y llain glaswellt ganolog sy'n gwahanu Rhodfa Handel a Rhodfa Purcell o'r Ffordd Fynediad Ddiwydiannol. Bydd y llwybr beicio yn 4m o led, gyda chlustogfa 0.5m ar y naill ochr a'r llall. Bydd lonydd traffig yn cael eu culhau.
- Bydd darn newydd o lwybr troed yn cael ei ddarparu gyferbyn ag Elgar Avenue.
- Bydd llwybr cerdded a beicio 3.5m yn cael ei greu ar hyd ochr ddeheuol Rhodfa Ysgarlad.
- Bydd manau croesi newydd neu wedi'u huwchraddio yn cael eu darparu i gerddwyr mewn gwahanol leoliadau.


**Manteision:**

- Bydd llwybr beicio pwrpasol yn darparu cyswllt allweddol rhwng glan y môr a ffordd deul Ffordd Afan.
- Bydd y cynigion yn gwella mynediad at ysgolion, Canolfan Fusnes Sandfields a glan y môr.



**Anfanteision:**

- Posiblirwydd o golli rhai cilfannau parcio, i'w gadarnhau.
- Posiblirwydd o adleoli neu golli safleoedd bysiau ar Rodfa Purcell a Rhodfa Handel.
- Colli rhywfaint o fannau parcio ar y stryd, i'w gadarnhau.
- Efallai y bydd angen rhagor o waith peiranyddol ar Rodfa Handel a Rhodfa Purcell oherwydd y gwahaniaeth mewn lefelau.

**Cynllun Ffordd Arferol : Rhodfa Handel**



**Cynllun Ffordd Arferol : Rhodfa Ysgarlad**





### Trosolwg o gynigion y dyluniad:

- Bydd llwybr i gerddwyr a beicwyr yn cael ei greu ar rannau deheuol a gogleddol Heol Victoria, gan gysylltu â Heol Sant Paul.
- Bydd Heol Sant Paul yn cael ei hadnabod fel stryd sy'n addas i feiciau, ac sy'n annog beicio ar y ffordd (a elwir yn 'stryd dawel'). Bydd yn cael ei defnyddio fel dewis arall i Heol Victoria, sydd â mwy o draffig a llawer o lefydd parcio ar y stryd.
- Bydd manau croesi newydd neu wedi'u huwchraddio yn cael eu darparu i gerddwyr mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys croesfan twcan (gydag arwyddion) ger Ysgol Gynradd Tywyn ac i gysylltu Heol yr Ysbyty gyda Heol Pontnewydd.
- Darparu cyrbiau isel a / neu balmart botymog ar ymyl strydoedd amrywiol i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.


### Manteision:

- Bydd stryd dawel yn annog pobl i feicio heb fod angen gwneud newidiadau mawr.
- Bydd manau croesi newydd a gwell yn gwella diogelwch i gerddwyr a beicwyr, yn enwedig y tu allan i Ysgol Gynradd Tywyn.
- Mae llwybr troed lletach a newydd yn darparu gwell cyswllt â llwybr beicio cenedlaethol 4 a glan y môr.


### Anfanteision:

- Gallai'r llwybr i gerddwyr a beicwyr ar ochr ogleddol Heol Victoria arwain at golli rhywfaint o fannau parcio ar y stryd, i'w gadranhau.
- Nid yw'n llwybr teithio uniongyrchol i feicwyr.

### Cynllun Ffordd Arferol:



### Trosolwg o gynigion y dyluniad:



### Trosolwg o gynigion y dyluniad:

- A continuous stepped cycle track will be created along each side of Dalton Road. This would be at a separate level to both the footway Bydd llwybr beicio parhaus ar uchder hanner ffordd yn cael ei greu ar hyd pob ochr i Heol Dalton. Byddai hyn ar lefel ar wahân i'r lwybr troed a'r ffordd. Bydd pob llwybr beicio yn 1.5m o led ac yn rhedeg i'r un cyfeiriad â'r traffig. Bydd lonydd traffig yn cael eu culhau a bydd y llwybrau troed yr un fath yn bennaf.
- Rhannau newydd o lwybr i gerddwyr a beicwyr sy'n ymuno â Ffordd y Dywysoges Margared a'r tanlwybr.
- Bydd manau croesi newydd neu wedi'u huwchraddio yn cael eu darparu i gerddwyr yn ysgol gynradd Awel y Môr ac yn y tanlwybr.
- Manau parcio newydd i feiciau y tu allan i siopau.
- System unffordd newydd ar Ffordd yr Ysgol a Heol Cove, i wella diogelwch y tu allan i ysgol gynradd Awel y Môr.
- Y posibilrwydd o gau rhai strydoedd ochr er mwyn atal neu gyfyngu ar draffig Heol Dalton (a elwir yn 'hidlydd moddol'). Union leoliadau i'w cytuno.
- Darparu cyrbiau isel a / neu balmant botymog ar ymyl strydoedd amrywiol i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.



### Manteision:

- Bydd llwybrau beicio pwrpasol newydd wrth ymyl y ffordd yn cysylltu'n well y llwybr presennol ar ffyrdd deul Ffordd Afan gyda glan y môr.
- Bydd cyfleusterau croesi newydd a gwell yn helpu cerddwyr.


### Anfanteision:

- Colli manau parcio ar y stryd ar ddwy ochr y ffordd.
- Y posibilrwydd o gau rhai strydoedd cefn i draffig.

### Cynllun Ffordd Arferol:



### Trosolwg o gynigion y dyluniad:





### Trosolwg o gynigion y dyluniad:

- Lledu'r droedffordd (yn y rhannau cul) a gwella'r wyneb ar hyd Rhodfa'r Gorllewin, llwybr allweddol i gerddwyr drwy Traethmelyn.
- Bydd manau croesi newydd i gerddwyr neu fannau wedi'u huwchraddio yn cael eu darparu mewn amrywiol leoliadau – Croesfan sebra neu groesfan sy'n cael ei rheoli gan oleuadau traffig gyferbyn â'r Eglwys Fethodistaidd.
- Darparu cyrbau isel a / neu balmart botymog ar draws cyffyrdd strydoedd sy'n ymylu â Rhodfa'r Gorllewin i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol a gwneud y llwybr yn fwy hygyrch i bob defnyddiwr.
- Bydd Rodfa St Helier yn cael ei nodi fel stryd sy'n addas i feiciau, gan annog beicio ar y ffordd (a elwir yn 'stryd dawel'). I'w defnyddio fel dewis arall yn lle Rhodfa'r Gorllewin, sydd â mwy o draffig. Bydd twmpathau cyflymder yn cael eu cyflwyno i arafu traffig.


### Manteision:

- Bydd cyfleusterau croesi newydd a gwell yn ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr, gan gynnwys plant ysgol.
- Bydd troedffyrdd lletach gyda chyrbau isel yn fwy cyfforddus i gerddwyr ac i olwyno.
- Bydd stryd dawel yn annog pobl i gerdded ac i feicio heb fod angen gwneud newidiadau mawr i'r seilwaith. Bydd angen twmpathau cyflymder i helpu i arafu traffig.

### Anfanteision:

- Mae beicwyr yn aros ar y ffordd gyda thraffig ar Rodfa St Helier.

### Trosolwg o gynigion y dyluniad:





### Trosolwg o gynigion y dyluniad:

- Bydd Heol Parry, Rhodfa Citrine a Rhodfa Arian yn cael eu hadnabod fel strydoedd sy'n addas i feiciau, gan annog beicio ar y ffordd (a elwir yn 'strydoedd tawel').
- Darparu cyrbau isel a / neu balmant botymog ar draws cyffyrdd strydoedd sy'n ymylu â Heol Parry i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol a gwneud y llwybr yn fwy hygyrch i bob defnyddiwr.
- Er mwyn gwella diogelwch, bydd twmpathau cyflymder yn cael eu cyflwyno i arafu traffig.
- Cyfleusterau parcio beiciau newydd yn siopau Heol Parry.


### Manteision:

- Bydd stryd dawel yn annog beicio stryd diogel heb yr angen i wneud newidiadau mawr i'r seilwaith.
- Bydd cyfleusterau croesi newydd i gerddwyr yn helpu cerddwyr.
- Bydd twmpathau cyflymder yn arafu'r traffig.
- 

### Anfanteision:

- Bydd beicwyr yn aros ar y ffordd gyda'r traffig yr holl ffordd.

### Trosolwg o gynigion y dyluniad:



## Trosolwg o gynigion y dyluniad:

- Bydd llwybr beicio parhaus ar uchder hanner ffordd yn cael ei greu ar hyd pob ochr i Rhodfa Aur. Byddai hwn ar lefel ar wahân i'r droedffordd a'r ffordd. Bydd pob llwybr beicio yn 1.5m o led ac yn rhedeg i'r un cyfeiriad â'r traffig. Bydd lled lonydd traffig yn cael ei gulhau.
- Rhannau newydd o lwybr a rennir ar gyfer cerddwyr a beicwyr ar hyd cylchfan Rhodfa'r Gorllewin.
- Mannau croesi newydd neu fannau croesi wedi'u huwchraddio i gerddwyr ar hyd y llwybr, gan gynnwys dwy groesfan sebra newydd.
- Y posibilrwydd o gau rhai strydoedd ymyl er mwyn lleihau neu gyfyngu ar y traffig hyd Heol Dalton (a elwir yn 'hidlydd moddol'). Union leoliadau i'w cytuno.
- Darparu cyrbau isel a / neu balmart botymog ar amrywiol strydoedd ymyl i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.
